# CWMPAS 2 2020

# Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig




## 1 Cefndir

Roedd Oedolyn V yn oedolyn ifanc agored i niwed a oedd wedi bod yn blentyn a fu'n derbyn gofal. Cafodd ddiagnosis o ADHD a DCD/dyspracsia, a dangosodd rai nodweddion anhwylder syndrom alcohol y ffetws ac awtistiaeth. Roedd rhywfaint o wybodaeth am ymddygiad rhywiol niweidiol tuag at blant. Gan nad oedd yr holl ymddygiadau niwroddatblygiadol a oedd yn amlwg yn Oedolyn V yn bodloni'r meini prawf diagnostig yn gyfan gwbl, yr oedd wedi wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau diagnostig. Yn oedolyn, cafodd gymorth o dan drefniant 'Pan Fydda i'n Barod'. Roedd angen seibiant o'r lleoliad hwn ym mis Chwefror 2020. Ym mis Mai 2020, datgelodd Plentyn A, a oedd wedi'i leoli yn yr un lleoliad seibiant ag Oedolyn V, gam-drin rhywiol a gyflawnwyd gan yr oedolyn ifanc.

## 2 Yr Adolygiad Hybrid

Teimlwyd bod rhywfaint i'w ddysgu o archwilio'r asiantaethau cymorth a ddarparwyd i Oedolyn V a Phlentyn A, gan eu bod ill dau yn dibynnu ar yr awdurdod lleol am eu gofal a'u lles. O ganlyniad, mae Adolygiad Ymarfer Oedolion ac Adolygiad Ymarfer Plant wedi'u cynnal, o dan ymbarél model hybrid sy'n caniatáu i brofiadau bywyd Oedolyn V a Phlentyn A gael eu harchwilio yn eu rhinwedd eu hunain. Mae Adroddiad Adolygu Ymarfer a Briff 7 Munud wedi'u cynhyrchu mewn perthynas â Phlentyn A, ac mae hyperddolenni wedi'u darparu ar gyfer y rhain er hwylustod. Teitl adolygiad Plentyn A yw "CYSUR 4 2020".

## 3 Prif Themâu: Prinder Lleoliadau / Anghenion Cymhleth

Amlygwyd heriau sylweddol yn yr adolygiad hwn o ran prinder lleoliadau maeth a seibiant. O fewn cyd-destun o gymhlethdod angen cynyddol a welir mewn perthynas â phlant ac oedolion ifanc, mae hyn yn creu her gymhleth o ran nodi lleoliadau addas sy'n cael eu harwain gan anghenion ar gyfer plant ac oedolion ifanc.

Yn yr adolygiad hwn, ystyriwyd na ddylai darpariaeth seibiant i oedolyn o dan y cynllun 'Pan Fydda i'n Barod' fod wedi'i threfnu o fewn lleoliad maeth. Yn ogystal, ystyriwyd pe na bai prinder gofalwyr maeth profiadol, efallai na fyddai Plentyn A a'i frawd neu chwaer wedi bod angen gofal seibiant ar yr adeg honno.

## 4 Prif Themâu: Penderfyniadau Paru a Lleoli

Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn cefnogi Oedolyn V a Phlentyn A, yn ogystal â gofalwyr maeth, wedi bod yn bryderus am y risgiau a oedd yn bodoli mewn perthynas â'r lleoliad y cytunwyd arno ac yn gysylltiedig â hanes Oedolyn V o ymddygiad rhywiol niweidiol. Er bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i hwyluso paru ar sail risg, ni ddilynwyd y polisïau hyn mewn perthynas ag Oedolyn V a Phlentyn A.

Nid oedd prosesau anffurfiol a ddatblygwyd o fewn y gwasanaeth maethu yn cydymffurfio â pholisi, a rhoddwyd pwysau amhriodol ar ofalwyr seibiant i gytuno ar leoliad yr oedd ganddynt bryderon yn ei gylch. At hynny, rhannwyd lefelau annigonol o wybodaeth am anghenion plant a'r risgiau cysylltiedig.

## 5 Arferion Da a Nodwyd

- Teimlai'r gofalwr 'Pan Fydda i'n Barod' ei fod wedi cael ei gefnogi'n dda gan y gwasanaeth maethu.
- Roedd ymarfer a chyfathrebu rhagorol yn sicrhau bod Oedolyn V yn cael cyfleoedd datblygu o fewn cwmpas ei fregusrwydd.
- Gweithiodd y cynghorydd personol yn agos gydag Oedolyn V, ei ofalwr Pan Fydda i'n Barod a'r coleg i ddarparu cymorth cyson a gwerthfawr, a oedd yn aml yn rhagori ar ddisgwyliadau.
- Cefnogodd y gofalwr Pan Fydda i'n Barod Oedolyn V i ddilyn ei sgiliau mewn cerddoriaeth.
- Cyfrannodd y coleg ei gymorth lles yn effeithiol.
- Roedd gofal sylfaenol yn diwallu anghenion iechyd Oedolyn V ac yn ymateb i bryderon, yn ogystal â chefnogi ei sgiliau annibyniaeth.

## 6 Gwella Systemau ac Arfer

- Pwysleisio pwysigrwydd uwchgyfeirio pryderon a'r broses chwythu'r chwiban i staff pan fo pryderon mewn perthynas â risg a diogelu.
- Egluro'r broses benderfynu ar gyfer penderfynu ar ofal seibiant pan fo anghenion oedolion ifanc a gofalwyr yn gwrthdaro.
- Sicrhau bod ymarferwyr sy'n ymwneud â threfnu gofal seibiant i oedolion ifanc o dan gynllun 'Pan Fydda i'n Barod' a lleoliadau maeth yn deall rheoli risg a diogelu yn llawn er mwyn sicrhau bod penderfyniadau paru'n cael eu gwneud gyda gwybodaeth lawn am eu hanes.
- Dylai clinigwyr fynd ar drywydd dilynol yn brydlon pan nad oes ganddynt fynediad at hanes meddygol cyflawn.

## 7 Gwella Systemau ac Arfer

- Dylai pob gofalwr gael gwybodaeth am anghenion oedolion agored i niwed er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion.
- Mae angen bod llwybrau a phrosesau clir ar waith i sicrhau bod pobl ifanc sy'n destun y broses cynllunio llwybr ag anghenion cymhleth, heb ddiagnosis meddygol, yn cael eu hasesu ar sail anghenion sy'n cefnogi cynllunio pontio effeithiol i wasanaethau oedolion.
- Dylai'r awdurdod lleol roi sicrwydd yr ymgynghorir yn llawn ag ymarferwyr a'u bod yn ganolog wrth wneud penderfyniadau ar ddarpariaeth seibiant a pharu – a bod polisïau'n cael eu dilyn.
- Dylid egluro a ellir defnyddio'r protocol Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol rhanbarthol ar gyfer anghydfodau mewnol.